

Mae **Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru** (YNGC) yn un o 47 o Ymddiriedolaethau Natur ledled y DG (un o 7 Ymddiriedolaeth Natur yng Nghymru) ac mae'n chwarae rhan flaenllaw mewn gofalu am, adfer a gwella cefn gwlad er lles bywyd gwyllt. Mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgymryd ag amrywiaeth o dasgau i warchod a gwella'r cynefinoedd ar gyfer bywyd gwyllt, ac i warchod rhywogaethau dan fgythyriad i genedlaethau'r dyfodol allu eu mwynhau. Mae Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru'n elusen gofrestredig sy'n dibynnu ar ei haelodau a'i chyfraniadau gwirfoddol.

Fel rhan o'i gwaith, mae YNGC yn:

- prynu ac yn rheoli gwarchodfeydd er mwyn gwarchod bywyd gwyllt ac er diben addysg ac ymchwil;
- hybu gwell dealltwriaeth o fywyd gwyllt, y defnydd o gefn gwlad a'r dull o'i warchod;
- annog cadwraeth bywyd gwyllt, yn ei gwarchodfeydd ac yn ehangach yng nghefn gwlad;
- gweithio gyda'r cyhoedd, cymunedau, perchnogion tir, cynghorau lleol a sefydliadau eraill gyda diddordeb yn nhreftadaeth bywyd gwyllt.

Am wybodaeth bellach, cysylltwch ag:

Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

376 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd LL57 1YE

ffôn: 01248 351541

ebost: nwwt@cix.co.uk

www.wildlifetrust.org.uk/northwales

The **North Wales Wildlife Trust** is one of 47 Wildlife Trusts across the UK (one of 7 Welsh Wildlife Trusts) and plays a leading role in looking after, restoring and improving the countryside for wildlife. The Trust undertakes a range of tasks to conserve and enhance wildlife habitats, and to protect threatened species for future generations to enjoy. The North Wales Wildlife Trust is a registered charity, dependent on its members and voluntary contributions.

Through its work, the North Wales Wildlife Trust:

- acquires and manages reserves for the conservation of wildlife, for education and research;
- promotes a better understanding of wildlife, the use of the countryside and its protection;
- encourages the conservation of all wildlife, both on its reserves and in the wider countryside;
- works with the public, communities, landowners, local councils and other organisations interested in the heritage of wildlife.

For further information contact:

North Wales Wildlife Trust

376 High Street, Bangor, Gwynedd LL57 1YE

tel: 01248 351541

email: nwwt@cix.co.uk



Ymweld â'r Warchodfa

Mae'r warchodfa wedi'i lleoli 2 filltir i'r dwyrain o Landudno, gerllaw'r B5115 i Fae Colwyn (SH 814 821). O Landudno, ewch ar hyd y ffordd ar hyd glan y môr i Fae Penrhyn. Mae'r warchodfa ar ochr y tir i'r Gogarth, gyferbyn â Craigside Inn. Mae'r maes parcio agosaf yn y gilfan ar Ffordd Bryn-y-bia (SH 818 819). Mae mynedfa'r warchodfa drwy'r giât mochyn, sydd wedi'i harwyddo fel Llwybr Gogledd Cymru, llwybr troed cyhoeddus o'r briffordd. Fel dewis arall, gallwch ddod i'r warchodfa o'r dwyrain, o Fae Penrhyn, ar hyd Llwybr Gogledd Cymru, gan ddod i mewn i'r warchodfa drwy giât mochyn (SH 814 823).

Mae'r llwybrau yn y warchodfa'n anwastad ac yn serth yn aml. Hefyd, gallant fod yn llithrig pan mae'n wlyb, felly mae esgidiau addas yn hanfodol. Dylai'r ymwelwyr fod yn ymwybodol o'r peryglon cysylltiedig â'r clogwyni, fel creigiau rhydd ac ymylon serth.

Visiting the Reserve

The reserve is located 2 miles to the east of Llandudno adjacent to the B5115 Colwyn Bay Road (SH 814 821). From Llandudno take the sea-front road towards Penrhyn Bay. The reserve is on the land-ward side of the Little Orme, opposite the Craigside Inn. The nearest parking is at the lay-by in Bryn-y-bia Road (SH 818 819). The reserve entrance is through the kissing gate, way-marked as the North Wales Path, a public footpath from the main road. Alternatively, you can approach the reserve from the east from Penrhyn Bay along the North Wales Path, entering the reserve through a kissing gate (SH 814 823).


Paths within the reserve are uneven, often steep and can be very slippery when wet, so suitable footwear is essential. Visitors should be aware of hazards associated with cliffs, such as loose rocks and steep drops.

Ymddiriedolaeth Natur
Gogledd Cymru

North Wales
Wildlife Trust



Gwarchodfa Natur *Rhiwledyn* Nature Reserve



Gwarchod Natur ar gyfer y Dyfodol
Protecting Wildlife for the Future

Gwarchodfa Natur Rhiwledyn


Mae Gogledd Cymru'n llawn tirlun a golygfeydd trawiadol. Mae'n gartref i fywyd gwylt arbennig iawn - dyfrgwn, gwiwerod coch, grugieir du a mwy. Ond gan fod rhaid i bob erw bron 'dalw ei ffordd', mae'r cynefinoedd cyfoethog yn draddodiadol yn prysur ddiiflannu a chydha hwy mae ein bywyd gwylt yn diflannu hefyd.

Dim ond un allan o'r tri deg a phedwar o warchodfeydd natur a reolir gan Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru yw Rhiwledyn ac mae'n warchodfa 12 erw wedi'i lleoli'n agos at y môr, ddwy filltir i'r dwyrain o Llandudno. Mae rhan ddwyreiniol y warchodfa, sy'n rhan o Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig y Gogarth, yn laswelltir calchfaen gyda pheth calchfaen amlwg. Llwyni o ddrain duon a geir yn bennaf ym mhen gorllewinol y warchodfa, a glaswelltir heb ei wella. Cafodd y warchodfa ei chyflwyno fel rhodd i'r Ymddiriedolaeth yn 1994, yn ewyllys Miss Holden, un o'n cymwynaswyr gwerthfawr iawn.

Rhiwledyn Nature Reserve

North Wales is full of spectacular scenery and landscapes. It is home to some very special wildlife - otters, red squirrels, black grouse and more. But with almost every acre required to 'pay its way', traditionally rich habitats are dwindling and with them goes our wildlife.

Rhiwledyn is just one of the thirty four nature reserves managed by the North Wales Wildlife Trust and is a 12 acre reserve situated close to the sea, two miles to the east of Llandudno. The eastern part of the reserve, which forms part of the Little Orme Site of Special Scientific Interest, is a limestone grassland with some exposed limestone. The western part of the reserve mainly contains blackthorn scrub and unimproved grassland. The reserve was left to the Trust in 1994 in the will of Miss Holden, one of our valued benefactors.



Cynllun y mapiau a'r daflen gan Lin Cummins 07792 535317 Llundain gan Sarah Lees
 Argraffwyd ar bapur wedi'i ailgylchu 100%.
 Maps and leaflet design by Lin Cummins 07792 535317 Illustrations by Sarah Lees
 Printed on 100% recycled paper.



Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru

Gwarchodfa Natur

Rhiwledyn

Mae Gwarchodfa Natur Rhiwledyn yn rhan o allgraig galchfaen sy'n ymestyn o Ynys Môn ar hyd arfordir Gogledd Cymru ac i'r de i Langollen. Ffurfiwyd y calchfaen dros 320 miliwn o flynyddoedd yn ôl mewn môr trofannol bâs ac mae'n cynnwys gweddillion ffosil cwrelau ac anifeiliaid môr eraill. Mae'r calchfaen yn toddi'n raddol mewn dŵr glaw ac yn cynhyrchu pridd alcaliaidd. Mae holltau ac uniadau yn y graig yn rhoi lle i ddŵr glaw ddraenio allan, gan gynhyrchu cynefin sych.

Glaswelltir Calchfaen

Mae glaswelltir y warchodfa wedi cael ei bori gan ddefaid a chwingod ers blynnyddoedd lawer. Mae pori'n cael gwared ar nitrogen ac yn galluogi i laswelltau gyda dail tenau dyfu, a phlanhigion byr. Fel arfer, byddai'r rhain yn cael eu tagu gan laswelltau cras neu llwyni. Mae gormod o bori, neu rhy ychydig, yn niweidiol. Mae cyllid Ewropeaidd diweddar, a chyllid gan CDL, wedi ein galluogi i warchod y safle rhag anifeiliaid pori pan fo angen, fel bod YNGC yn gallu rheoli'r defaid sy'n pori yma. O ganlyniad, mae botaneg y warchodfa'n gyfoethog, gydag enghreifftiau o blanhigion sy'n nodweddiadol o laswelltir calchaid a chynefinoedd arfordirol. Ymhlith y planhigion calchaid a geir yn y warchodfa mae'r Crydwellt (*Briza media*), Crogedyf (*Filipendula vulgaris*), Ysgall y Calch (*Carlina vulgaris*), Pig yr Aran Rhuddgoch (*Geranium sanguineum*), Meillion Melyn (*Anthyllis vulneraria*), Meddyg y Bugail (*Inula conyza*), Melynlllys (*Blackstonia perfoliata*), Rhwyddlwyn Ysbigog (*Veronica spicata*) a Marddanadl Gwynion (*Marrubium vulgare*). Ymhlith y planhigion sy'n fwy nodweddiadol o laswelltir arfordirol mae Bresych Gwyllt (*Brassica oleracea*) a'r Cor-Rosyn Lledwyd (*Helianthemum canum*), sy'n anghyffredin iawn yn genedlaethol.

Dôl Heb ei Thrin

O amgylch y ddôl fechan ceir gweddillion waliau cerrig a wnaed gan gerrig a gliriwyd o'r cae mae'n bur debyg. Mae pori trwm yn y fan yma gan ddefaid a chwingod wedi arwain at ddarnau o bridd noeth a glaswellt byr sy'n llawn Eiddew'r Ddaear (*Glechoma*

hedera). Ceir gwynt cryf, hallt yn yr ardal hon, ac mae hynny'n arafu ymlediad y Drain Duon. Ceir sawl twmpath morgrug gan Forgrug Melyn y Ddôl (*Lasius flavus*) yn yr ardal hon hefyd, gan ddangos nad yw'r ddôl wedi cael ei thrin ers peth amser.

Llethrau Llawn Llwyni

Mae'r ardal hon wedi'i gorchuddio gan dyfiant trwchus o Ddrain Duon, gyda pheth Sycamorwydd, Ysgaw, Celyn, Meryw a Phrifet Gwyllt. Mae Clematis Gwyllt (*Barf yr Hen Ŵr*) yn dringo'r coed ac mae danadl poethion yn tyfu yn y cysgod trwchus. Mae'r safle yma'n atyniadol i adar, i nythu, cysgodi a bwydo.


Clogwyni, Creigiau Noeth

Yma, mae Aderyn Drycin y Graig yn nythu ar y silffoedd yng nghanol y Cor-Rosyn (*Helianthemum chamaecistan*) sy'n addurno wyneb y clogwyni. Gan nad oes modd mynd i'r rhannau yma o'r warchodfa, maent yn cynnig cynefin na ellir tarfu arno, ac mae hynny'n eithriadol bwysig ym myd natur ac o safbwynt cadwraeth rhai rhywogaethau.

Infertebratau

Ceir amrywiaeth eang o infertebratau yn y warchodfa hon. Mae'r pridd calchaid yn arbennig o dda ar gyfer malwod, sydd angen calsiwm i gynhyrchu eu cregyn. Y malwod mwyaf cyffredin yw'r Malwod Ymyl Llwyd (*Cepaea nemoralis*) a'r Malwod Gwydr Garleg (*Oxychilus allarius*). Oni bai ei bod yn llaith, yn yr holltau yn y calchfaen y ceir hyd i'r malwod, lle maent yn cysgodi rhag ysglyfaethwyr a'r haul.

Mae gloynnod byw fel Brith y Coed, y Paun, y Porthor, Llwyd y Ddôl ac lâr Fach y Graig, a rhywogaethau amrywiol o wyfynod, i'w gweld yn y warchodfa. Cysylltir gloynnod byw a gwyfynod â mathau arbennig o blanhigion yn aml. Mae'r amrywiaeth o blanhigion a geir yn y warchodfa'n cefnogi anghenion bwydo oedolion a larfa (lindys) sawl rhywogaeth.



Adar

Gwelir adar ym mhob rhan o'r warchodfa. Mae'r adar arfordirol, fel Aderyn Drycin y Graig, yn nythu ar y clogwyni creigiog yn y warchodfa. Mae'r gan yr adar cryno hyn adenydd cul, hir sydd wedi'u haddasu i groghedfan ac mae'n hawdd iawn eu hadnabod oddi wrth eu trwynau tiwb a'u hadenydd stiff wrth iddynt hedfan.

Mae Adar Drycin y Graig yn gallu poeri olew ag arno arogl drwg ar unrhyw un sy'n tarfu arnynt.

Yn ystod y tymor magu, mae Mulfrain, sy'n nythu ar glogwyni'r môr gerllaw, yn casglu deunydd nythu o'r warchodfa.

Gwelir Cigfrain a Jacdoeau ar yr allgreigiau a'r clogwyni. Yn y llwyni, mae'r Dryw, y Titw Tomos Las, y Titw Mawr, y Fronfraith a'r Aderyn Du i'w gweld yn niferus. Mae'r Eithin clytiog ar y glaswelltir calchfaen yn cynnig cysgod a safle nythu i Linosiaid a'r Nico.

Yn aml iawn, gwelir y Bwncath, y Gwalch Glas a'r Cudyll Coch yn hela uwch ben y warchodfa. Wrth droed y warchodfa y gwelir y Gwalch Glas a'r Cudyll Coch amlaf, yn y llwyni. Mae'r Gwalch Glas benywaidd, sydd ryw draean yn fwy na'r gwrywod, yn gallu bwyta adar canolig eu maint fel yr Aderyn Du neu'r Fronfraith. Mae'r gwrywod yn bwyta adar llai, fel Aderyn y To, y Titw Tomos Las a'r Dryw. Mae'r gwahaniaeth mewn deiet rhwng y rhywiau'n atal cystadlu ac mae'r parau'n gallu hela tiriogaeth lai.

Mamaliaid

Yn ogystal â chwingod, sy'n chwarae rhan bwysig yn y gwaith o bori'r safle, mae Llygod Coch a Charlymod i'w cael yn y warchodfa. Mae'r Llygod Coch yn swil a diniwed ac yn bwydo ar aeron, hadau ac eginblanhigion. Mae'r Carlymod yn hela am Gwningod, Llygod ac adar ieuainc.



North Wales Wildlife Trust

Rhiwledyn

Nature Reserve

Rhiwledyn nature reserve forms part of a limestone outcrop that extends from Anglesey along the North Wales coast and south to Llangollen. The limestone was formed over 320 million years ago in a shallow tropical sea and contains the fossilised remains of corals and other sea animals. Limestone is slowly dissolved by rainwater and produces alkaline soil. Fractures and joints in the rock allow rainwater to drain away, producing a dry habitat.

Limestone Grassland

The grassland areas of the reserve have been grazed by sheep and rabbits for many years. Grazing removes nitrogen and allows the growth of fine leaved grasses and low growing plants, which would normally be out-competed by coarse grasses or scrub. Too much or too little grazing is harmful. Recent European and HLF money has enabled the site to be stock-proofed, giving NWWT control over the sheep grazing. As a result, the reserve is botanically rich, with examples of plants typical of both calcareous grassland and coastal habitats. Calcareous grassland plants found on the reserve include Quaking Grass (*Briza media*), Dropwort (*Filipendula vulgaris*), Carline Thistle (*Carlina vulgaris*), Bloody Cranesbill (*Geranium sanguineum*), Kidney Vetch (*Anthyllis vulneraria*), Ploughman's Spikenard (*Inula conyza*), Yellow-wort (*Blackstonia*

perfoliata), Spiked Speedwell (*Veronica spicata*) and White Horehound (*Marrubium vulgare*). Plants more typical of coastal grassland include Wild Cabbage (*Brassica oleracea*) and the nationally uncommon Hoary Rockrose (*Helianthemum canum*).

Unimproved Meadow

The small meadow is bounded by remains of stone walls which were probably made from stones cleared from the field. Heavy grazing by sheep and rabbits has resulted in patches of bare soil and short grass dominated by Ground Ivy (*Glechoma hederata*). This area is exposed to strong, salt laden winds which slow the spread of Blackthorn scrub. There are several anthills of the Yellow Meadow Ant (*Lasius flavus*) in this area, showing that the meadow has not been cultivated for some time.

Scrub-covered Slopes

This area is covered with a fairly dense growth of Blackthorn, with some Sycamore, Elder, Holly, Juniper and Wild Privet. Wild Clematis (Old Man's Beard) climbs the trees and nettles grow in the dense shade. Birds find this an attractive, sheltered nesting and feeding place.

Cliffs, Bare Rock

Here Fulmar nest on ledges and the Rock-Rose (*Helianthemum chamaecistan*) adorns the cliff face. The unaccessibility of these areas of the reserve allow for an undisturbed habitat, which is extremely important in nature and in the conservation of certain species.

Invertebrates

There is a wide range of invertebrates on the reserve. The calcareous soil is especially good for snails which require calcium to produce their shells. The most common snails are the Brown-lipped Snail (*Cepaea nemoralis*) and the Garlic Glass Snail (*Oxychilus alliarius*). Unless conditions are damp, snails are best found in the clefts in the limestone, where they are hidden from predators and the sun.

Butterflies such as Speckled Wood, Peacock, Gatekeeper, Meadow Brown, Grayling and various moth species may be seen on the reserve. Butterflies and moths are often associated with specific plants. The variety of plants found on the reserve support the food needs of the adults and larvae (caterpillars) of many species.

Birds

Birds can be seen throughout the reserve. Coastal birds, such as Fulmars, nest on the rocky cliffs within the reserve. These compact birds have long narrow wings adapted for gliding and are most easily identified by their tube noses and stiff-winged flight. Fulmars have the ability to spit foul smelling oil at intruders.

During the breeding season Cormorants, nesting on the nearby sea-cliffs, collect nesting material from the reserve.

Ravens and Jackdaws can be seen on the rocky outcrops and cliffs. Within the scrub Wrens, Blue Tits, Great Tits, Thrushes and Blackbirds abound. The patchy Gorse on the limestone grassland provides protection and nesting sites for Linnets and Goldfinches.

Buzzards, Sparrowhawks and Kestrels can often be seen hunting over the reserve. Sparrowhawks and Kestrels are most often seen at the foot of the reserve, within the scrub. Female Sparrowhawks, which are about a third bigger than the males, eat medium sized birds such as Blackbirds or Thrushes. The males eat smaller birds such as Sparrows, Blue Tits and Wrens. The difference in diet between the sexes prevents competition and enables a pair to hunt over a smaller territory.

Mammals

As well as Rabbits, which play an important role in grazing the site, the reserve supports Bank Voles and Stoats. Bank Voles are shy and timid and feed upon shoots, berries and seeds. Stoats hunt for Rabbits, Voles and young birds.

